Cofnodion y cyfarfod ar 18fed o Fawrth 2026

Yn bresennol oedd Helen Jones (cadeirydd), Eryl Evans, Llyr Jones, Arwyn Ellis a Cyngh Gwennol Ellis, cafwyd ymddiheuriadau gan Gethin Jones a Generys Roberts.

Darllenwyd y cofodion blaenorol ac fe u harwyddwyd fel rhai cywir.

Datgan diddordeb - Neb

Gohebiaeth

1. Unllais Cymru – Tal aelodaeth £42.00 pasiwyd iw dalu.
2. Ysgol Gynradd Cerrig y Drudion – llythyr diolch am ein cyfraniad o £50.00
3. Clwyd Wood – anfoneb am wneud twb dal y goeden Nadolig yn yr Eglwys. £195.60 pasiwyd iw dalu.
4. Cyflog y Clerc - £2,550.60 pasiwyd iw dalu.
5. Yn y banc ddiwedd Chwefror £3,126.29
6. Gair gan y Cyngh Gwennol Ellis – Bont y Crown, cafwyd addewid bod y gwaith yn yr afon yn cychwyn ddechre fis Medi ac felly bydd y bont yn cau oddi ar hynny, dyddiad iw gadarnhau nes ir amser. Cadarnhawyd bod y treth Cyngor yn mynd im godi 6.5% eleni Bydd y sgip tu allan ir Bungalo Bro Alwen yn cael ei symud yr wythnos yma gobeithio, (Cartrefi Conwy sydd yn gyfrifol am hon).
7. Sgip – pasiwyd i gael sgip yn mis Mai (9fed o Fai)
8. Parc Chwarae Gro – pasiwyd i gael cyfarfod gyda David Dudley o Gyngor Conwy a Marc Roberts ar cynghorwyr i weld os oes posib ychwanegu at y Parc yn y Gro, y clerc i wneud trefniadau.
9. Plannu blodau yn y tybiau – pasiwyd ir clerc blannu blodau yn y tybiau fel bo angen.
10. Ceir yn parcio yn y maes parcio tu ol i Bro Alwen. – pasiwyd i ysgrifennu at berchnogion y ceir gan ofyn yn garedig iddynt gael ei symud or safle.
11. Cyngor Sir Conwy - pasiwyd gofyn i Kevin o Gyngor Conwy os oes posib cael llenwi y tyllau ger y grid gwartheg yn Bryn Deiol.
12. Rallings yr Eglwys – daeth sylw i gael paentio y rallings yr Eglwys – Clerc i gael dau bris am beintio, ac gofyn am arian grant or Cronfa Elusenol Cymunedol Llanfihangel i dalu am y gost.
13. Elusen Gymunedol Llanfihangel Glyn Myfyr = Wedi derbyn grant am £332.08 am y Goeden Nadolig ar twb.
14. Cyngor B Sirol Conwy - Treth gwerth ar y toildau - Dim.

Dyddiad ein cyfarfod nesaf 21ain o Fai 2026.